**PWYLLGOR SAFONAU**
**9 EBRILL 2018**

Cofnodion o gyfarfod Pwyllgor Safonau Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Llun, 9 Ebrill 2018.

**YN BRESENNOL: Edward Hughes (Cadeirydd)**
Y Cynghorwyr:
Patrick Heesom, Paul Johnson ac Arnold Woolley

Aelodau Cyfetholedig:
Rob Dewey, Julia Hughes a Ken Molyneux

**YMDDIHEURIADAU:**
Jonathan Duggan-Keen a Phillipa Earlam

**HEFYD YN BRESENNOL:**
Swyddog Monitro, Dirprwy Swyddog Monitro a Swyddog Gwasanaethau Democrataidd

## 68. DATGAN CYSYLLTIADAU (GAN GYNNWYS DATGANIADAU CHWIPIO)

Dim.

## 69. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 5 Mawrth 2018.

**PENDERFYNWYD:**

Y dylid cymeradwyo’r cofnodion fel cofnod cywir ac y dylai'r Cadeirydd eu llofnodi.

## 70. GOLLYNGIADAU

Ni dderbyniwyd dim.

## 71. YMWELIADAU I GYNGHORAU TREF A CHYMUNED

Cyflwynodd y Swyddog Monitro adroddiad ar y trefniadau ymarferol ac ariannol i ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned, ar ôl trafod yn y cyfarfod blaenorol.

Er nad oedd yr ymweliadau arfaethedig yn bodloni meini prawf rheolau Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol mewn perthynas â thaliadau i aelodau annibynnol, roedd y Cyngor yn gallu talu costau teithio. Roedd ffurflen hawlio costau wedi’i hatodi i’r adroddiad, ynghyd â'r pecyn gwaith awgrymedig i sicrhau cysondeb wrth gynnal yr ymweliadau a darparu adborth i’r Pwyllgor.

Roedd ffurflen hawlio lwfans presenoldeb hefyd wedi’i darparu a dywedwyd wrth aelodau annibynnol am ei defnyddio pan oeddent yn bresennol yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a digwyddiadau perthnasol. Roedd yr adroddiad hefyd

yn manylu ar newid i'r amseroedd paratoi y cytunwyd arnynt ar gyfer cyfarfodydd y Pwyllgor.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Y dylai Aelodau sy'n ymweld â Chynghorau Tref a Chymuned er mwyn arsylwi allu hawlio costau teithio am wneud hynny; a

(b) Y dylai Aelodau nodi'r 'pecyn gwaith' awgrymedig i gynnal ymweliadau.

## 72. ADRODDIADAU BLYNYDDOL CYNGHORWYR

Cyflwynodd y Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad ar drefniadau i Aelodau'r Cyngor gyhoeddi adroddiadau blynyddol, yn unol â chanllawiau a roddwyd dan Fesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011. Roedd hwn yn rhoi diweddariad ar y mater a gyflwynwyd yn flaenorol ym mis Chwefror 2016.

Er mwyn cywirdeb, nodwyd y dylai paragraff 1.07 gyfeirio at adroddiadau blynyddol ac nid ffurflenni.

Er nad oedd rhaid i Aelodau'r Cyngor lunio adroddiadau blynyddol, roedd y ddeddfwriaeth yn rhoi dyletswydd ar gynghorau i sicrhau bod trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol ar gyfer y rhai a ddewisai wneud hynny. Oherwydd bod nifer o Gynghorwyr newydd, awgrymwyd y dylid rhoi nodyn atgoffa bod trefniadau o'r fath ar waith a gofyn i'r Aelodau hynny a ddewisodd greu eu newyddlen eu hunain gadarnhau pa mor aml y gwnaethant hynny dros y 12 mis diwethaf. Awgrymwyd y dylid dweud hyn wrth Aelodau bob blwyddyn.

Soniodd Mr Rob Dewey am y nifer isel o Aelodau a ddewisodd lunio adroddiad blynyddol. Eglurodd y Swyddog Monitro bod canlyniadau arolwg blaenorol yn dangos ei bod yn well gan y mwyafrif lunio eu newyddlen eu hunain.

Awgrymodd Mrs Julia Hughes y dylid newid geiriad yr argymhelliad i'w gwneud yn eglur y gall pob Aelod ddewis a oeddent am lunio adroddiad blynyddol neu newyddlen ai peidio, ac nad oedd unrhyw un yn orfodol.

Cyfeiriodd y Cynghorydd Johnson at ffyrdd mwy effeithiol o gyfathrebu, fel y cyfryngau cymdeithasol, a ddefnyddid gan rai Aelodau i ymgysylltu ag etholwyr.

Cytunodd y Pwyllgor ar newid i'r geiriad ar gyfer Argymhelliad 2 i adlewyrchu'r sylwadau hyn.

**PENDERFYNWYD:**

(a) Atgoffa Aelodau'r Cyngor o'r trefniadau i gyhoeddi adroddiadau blynyddol drwy anfon y templed (a oedd wedi'i atodi fel atodiad A i'r adroddiad hwn) ar e-bost at yr Aelodau a'u cyfeirio at y Canllawiau;

(b) Gofyn i'r Aelodau hynny sy'n dewis peidio â llunio adroddiad blynyddol gadarnhau a ydynt yn dewis cyfathrebu drwy sianelau eraill, er enghraifft, drwy newyddlen, y cyfryngau cymdeithasol, ac ati, a rhoi gwybod i'r

Swyddog Monitro pa mor aml y defnyddiwyd dulliau cyfathrebu o'r fath dros y deuddeg mis diwethaf; ac

(c) Anfon y nodyn atgoffa a gweithredu'r cais a nodwyd ym mharagraffau (a) a (b) dan yr argymhelliad hwn yn flynyddol.

## 73. RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL

Cyfeiriodd y Swyddog Monitro at y cyfarfod nesaf ar 14 Mai lle mai'r brif eitem fyddai trafod hyfforddiant ar gyfer Cynghorau Tref a Chymuned. Dywedodd ei fod wedi cael cais i gynnal sesiwn hyfforddi o'r fath yng Nghyngor Cymuned Llaneurgain. Cytunodd y Pwyllgor, os nad oedd unrhyw fater arall ar gyfer 14 Mai (gan gynnwys ceisiadau am ollyngiadau), y byddai'r cyfarfod yn cael ei ganslo ac y byddai'r eitem ar hyfforddiant yn cael ei symud i gyfarfod mis Mehefin.

Nid oedd y Swyddog Monitro wedi cael gwybod eto am ddyddiad cyfarfod Fforwm Safonau Gogledd Cymru ym mis Mai, ond byddai'n rhoi gwybod i aelodau annibynnol pan oedd wedi'i gadarnhau. Byddai'r pwnc a awgrymwyd yn flaenorol gan Mrs Phillipa Earlam yn cael ei gyflwyno ar gyfer y rhaglen.

**PENDERFYNWYD:**

Nodi'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.

## 74. AELODAU O'R WASG A'R CYHOEDD YN BRESENNOL

Roedd dau aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 6.30pm a daeth i ben am 6.50pm)

…………………………
**Y Cadeirydd**